Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol lleol

# 12. Newid hinsawdd

## 12.5 Newid hinsawdd a chyfiawnder amgylcheddol

Mae cyfiawnder amgylcheddol yn canolbwyntio ar yr hawl ddynol sylfaenol i gael amgylchedd glân ac iach. Yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang mae'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, ac â'r lleiaf o bŵer ac arian, yn aml yn cael gwrthod yr hawl hwn. P'un a yw'n ymwneud â bod yn agored i lygredd aer neu lifogydd, lleoliad gosodiadau peryglus neu'n syml, bod heb fynediad at yr amgylchedd, yn aml effeithir yn anghymesur ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas.

Mae pobl sy'n byw yng nghymdogaethau tlotaf y DU yn dueddol o gael yr ergyd fwyaf pan gaiff yr amgylchedd ei ddifrodi.

Ar gyfartaledd, mae cymunedau difreintiedig yn llai tebygol o gael mynediad at leoedd gwyrdd ac at wasanaethau, megis ailgylchu ar garreg y drws, ac maent yn llai tebygol o fod yn barod ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol megis llifogydd.

Dyma brif gonglfeini cyfiawnder cymdeithasol:

- Mae gan bawb yr hawl i gael amgylchedd iach a diogel a'r cyfrifoldeb i'w gynnal.
- Mae gan bawb yr hawl i gyfran deg o adnoddau naturiol a'r hawl i beidio â dioddef yn anghymesur gan bolisïau, rheoliadau neu gyfreithiau amgylcheddol.
- Mae gan bawb hawl sifil i allu cael mynediad at wybodaeth amgylcheddol a chymryd rhan yn y broses o lunio penderfyniadau.
- Ni ddylai'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, yn enwedig y tlotaf, ddioddef effeithiau anghymesur, negyddol yn sgil esgeulustra, gweithredoedd, polisi neu gyfraith amgylcheddol.

## Capacity Global

Mae Capacity Global yn gweithio'n benodol gyda phobl a chymunedau mewn ardaloedd trefol, sy'n dioddef fwyaf o anghyfiawnder amgylcheddol, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Maent yn gweithio gyda phobl ar faterion amgylcheddol lleol a gwaith sy'n mynd i'r afael â heriau byd-eang fel y newid yn yr hinsawdd. Maent yn cydweithio â phartneriaid a rhwydweithiau amrywiol ac rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl sy'n dioddef fwyaf o fyw mewn cymdogaethau tlawd. Oherwydd hyn, mae Capacity Global yn gallu datblygu ymchwil, rhannu gwybodaeth a helpu i ddarparu atebion sy'n herio anghydraddoldeb a darparu adnoddau sy'n creu amgylcheddau trefol iach.
Cewch ragor o wybodaeth yn www.capacity.org.uk/research/environmentaljustice.html

## Rhwydwaith Cyfiawnder Amgylchedd y DU

Mae Rhwydwaith Cyfiawnder Amgylchedd y DU (UKEJN) yn rhwydwaith o fudiadau, cymunedau ac unigolion sy'n ceisio sicrhau bod gan bawb yr hawl i gael amgylchedd glân ac iach. Cafodd UKEJN ei sefydlu gan Capacity Global yn 2002.

Cewch ragor o wybodaeth yn www.capacity.org.uk/policyandadvocacy/ukejn.html

## Y Sefydliad Cyfiawnder Amgylcheddol

Mae'r Sefydliad Cyfiawnder Amgylcheddol (EJF) yn elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 2000 i rymuso pobl sy'n dioddef fwyaf o gamddefnydd i'r amgylcheddol i ddod o hyd i ffyrdd heddychlon o'u hatal.

Mae EJF yn rhoi hyfforddiant ffilm ac eiriolaeth i unigolion a mudiadau llawr gwlad yn ardal ddeheuol y byd, gan eu galluogi i gofnodi, datgelu a chreu atebion hirdymor i gamddefnydd amgylcheddol. Mae EJF yn ymgyrchu'n rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth o'r materion y mae ein partneriaid ar lawr gwlad yn gweithio i'w datrys yn lleol. Heddiw mae gan EJF dîm o ymgyrchwyr a phobl sy'n creu ffilmiau wedi'u lleoli yn Llundain, ac yn gweithio'n rhyngwladol gyda phartneriaid ym Mrasil, Fietnam, Mali, Sierra Leone, Uzbekistan, Mauritius ac Indonesia.

Cewch ragor o wybodaeth yn www.ejfoundation.org

## Ymchwil ac adnoddau cyfiawnder amgylcheddol o Brifysgol Caerhirfryn

Mae Prifysgol Caerhirfryn yn darparu adnodd ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn cyfiawnder amgylcheddol ac anghydraddoldeb, yn enwedig o safbwynt y DU.

Cewch ragor o wybodaeth yn http://geography.lancs.ac.uk/envjustice

## Grŵp ymchwil Cyfiawnder Amgylcheddol Byd-eang, Prifysgol East Anglia

Mae grŵp ymchwil Cyfiawnder Amgylcheddol Byd-eang yn grŵp rhyngddisgyblaethol o ysgolheigion sydd â diddordeb yn y cysylltiadau rhwng cyfiawnder cymdeithasol a newid amgylcheddol, gyda diddordeb penodol yn nimensiynau byd-eang anghyfiawnder amgylcheddol.

Cewch ragor o wybodaeth yn www.uea.ac.uk/dev/global-environmental-justice

## Cyfeillion y Ddaear

Mae gan Gyfeillion y Ddaear Ganolfan Hawliau a Chyfiawnder sy'n cynnig cefnogaeth gyfreithiol am ddim, gan helpu cymunedau a grwpiau ymgyrchu eraill i amddiffyn eu hamgylchedd. Cewch fanylion cyswllt a gwybodaeth bellach yma www.foe.co.uk/campaigns/fair_future/rights_justice_centre_23310.html

## Y Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol

Mae gan y Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol wasanaeth cynghori ac atgyfeirio.

www.elflaw.org/our-work/advice-referral/

## Cyfiawnder Hinsoddol

Mae Cyfiawnder Hinsoddol yn cysylltu hawliau dynol a datblygiad i gyflawni dull sy'n canolbwyntio ar bobl, gan ddiogelu hawliau'r bobl fwyaf agored i niwed a rhannu baich a manteision newid yn yr hinsawdd a'i datrysiad yn gyfartal ac yn deg. Ar hyn o bryd mae'n fframwaith rhyngwladol, ond mae wedi'i gysylltu'n agos â'r meddylfryd am gyfiawnder cymdeithasol a newid yn yr hinsawdd yn y DU. (Gweler Taflen Wybodaeth 12.4 am ragor o wybodaeth). Gellir cael gwybodaeth bellach ar gyfiawnder cymdeithasol ar lefel ryngwladol yn:

http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/a-safe-and-just-space-for-humanitycan-we-live-within-the-doughnut-210490http://www.mrfcj.org/about

**Ymwadiad**
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

**Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych**
*Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AF*
**Elusen Gofrestredig:** *1054322*

**Ffôn:** 01824 702441 sectorsupport@dvsc.co.uk
www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
**Wedi ei ddiweddaru:** 23/03/2017